Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for:

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR PENODIADAU**

Cynhelir Cyfarfod ailymgynull Pwyllgor Penodiadau i'w gynnal o bell trwy Dimau Microsoft ar **Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021** am **17:00 (neu'n syth ar ôl y Cyngor, pa un bynnag yw'r hwyraf)** .

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau/Swyddogion yn unol a darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 10
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 11/10/19, 22/01/20 a 11/03/20.

4. Gwahardd y Cyhoedd
   Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).
   Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

5. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

I dderbyn am gymeradwyaeth gwahardd y Cofnodion cyfarfod y 11/10/19 a 11/03/20.

Sylwch na fydd y cofnodion eithriedig ar gyfer y cyfarfodydd hyn ond yn cael eu hanfon mewn e-bost at Aelodau'r Pwyllgor Penodiadau a fynychodd y rhain.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| JPD Blundell | D Patel | PJ White |
| N Clarke | RL Penhale-Thomas | HM Williams |
| HJ David | JC Spanswick | RE Young |
| T Giffard | T Thomas | |

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD GWENER, 11 HYDREF 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | T Thomas | D Patel | RE Young |
| JC Spanswick | RL Penhale-Thomas | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

32. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

33. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodi ar 18 Ebrill 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

34. Y BROSES BENODI: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, CYMUNEDAU

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor o'r rhesymeg dros benodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, sef bod yr awdurdod wedi gweld newid sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ran swyddogion y JNC, a bod y rheoleiddwyr wedi sylwi ar hynny. Dywedodd mai'r awdurdod hwn sydd â'r uwch dimau rheoli lleiaf o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, yn arbennig o gymharu ag awdurdodau cyfagos.

Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Gyfarwyddiaeth Gymunedau yn un gymhleth a chanddi faes amrywiol o wasanaethau, ac mai'r her i'r Cyfarwyddwr fyddai rheoli newid. Dywedodd na allai'r awdurdod fod yn feinach, a bod angen gwneud apwyntiad i'r rôl hon, ond ei fod yn deall sut allai recriwtio rôl uwch ymddangos i'r cyhoedd. Roedd llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi gwneud nifer o benodiadau i swyddi uwch yn ddiweddar.

Roedd y Pwyllgor yn deall y rhesymeg y tu ôl i wneud penodiad, gan gydnabod bod y Gyfarwyddiaeth wedi datblygu llawer o fodelau partneriaeth a'i bod wedi dioddef yn sgil ei llwyddiant â hynny. Dywedodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor fod y sefydliad yn parhau i dyfu, gyda'r awdurdod bellach â swyddogaeth Adfywio, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau. Dywedodd aelod o'r Pwyllgor y byddai angen i'r person a benodir i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i drawsnewid gwasanaethau a gwireddu newid. Soniodd aelod o'r Pwyllgor am yr angen i ystyried gwydnwch yr awdurdod wrth wneud penodiad. Sicrhawyd y Pwyllgor bod awdurdodau eraill wedi gwneud penodiad i rolau uwch. Nododd y Pwyllgor hefyd fod problemau â chydnerthedd i'w cael o fewn y Gyfarwyddiaeth ar lefel is na'r Cyfarwyddwyr.

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y broses recriwtio Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ac ar y cynnig i ymgysylltu â Solace in Business, sydd â phrofiad o recriwtio uwch reolwyr a rolau gweithredol i awdurdodau lleol, i gefnogi'r Cyngor gyda'r penodiad.

Rhoddodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad ar y broses ddethol sydd i ddilyn, sef y bydd ceisiadau'n cael eu hanfon i Solace in Business er mwyn iddynt asesu a gwerthuso ymgeiswyr yn erbyn y cymwyseddau a bennwyd ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor hwn drwy gydol y broses. Amlinellodd yr amserlen ar gyfer camau'r broses ddethol, ynghyd â disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer y rôl. Ar ôl y dyddiad cau, byddai'r Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gynnull i dderbyn adborth gan yr arbenigwr recriwtio ac i gytuno ar restr hir o ymgeiswyr i barhau i'r ganolfan asesu. Dywedodd y bydd y ganolfan asesu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dethol a bydd aseswyr yn cynnal cyfweliadau rheolaethol / technegol, profion seicometrig, ac asesiadau rhyngweithiol i brofi cymwyseddau allweddol. Bydd y Pwyllgor Penodiadau yn cael adborth ar ôl y ganolfan asesu ac yn cytuno ar restr fer derfynol o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad gan y Pwyllgor. Y Pwyllgor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad, gan ystyried canlyniad y ganolfan asesu a'r cyfweliad terfynol. Dywedodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wrth y Pwyllgor y byddai Panel Rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu fel rhan o'r broses ddethol ac y gallai aelodau'r Pwyllgor gynnig enwau i'r swyddogion o ran pwy ddylai fod yn rhan o'r Panel hwnnw.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod gan Solace in Busnes wybodaeth am y farchnad ac y byddent yn adnabod ymgeiswyr. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor na fyddai gan yr awdurdod y gallu i ymgymryd â recriwtio o'r fath eu hunain.

Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos hygrededd a brwdfrydedd dros reoli newid. Credai fod y swydd wedi'i gosod ar y lefel gywir a bod gofynion y Cyngor wedi'u trafod gyda Solace.

Trafododd y Pwyllgor yr angen am feincnod i asesu ymgeiswyr ac roedd o'r farn y dylid pennu hyn ar 50%.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor Penodiadau yn:

(i) Cymeradwyo'r disgrifiad swydd a'r fanyleb;
(ii) Cymeradwyo'r broses a amlinellir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad;
(iii) Ailymgynnull ar 20 Tachwedd 2019 yn dilyn cyfarfod y Cyngor i benderfynu ar y rhestr hir o ymgeiswyr i'w gwahodd i'r ganolfan asesu;
(iv) Dirprwyo'r penderfyniad o ba ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i gam olaf y broses ddethol, sef cyfweliad gan y Pwyllgor Penodiadau, i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ganolfan asesu.
(v) Ailgynnull ar 4 Rhagfyr 2019 i dderbyn adborth gan y ganolfan asesu ac i gynnal cyfweliadau terfynol a gwneud penderfyniad penodi.

35. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNIAD: O dan adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad At Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol o fusnes gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 o ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl cymhwyso'r prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth wedi'i heithrio.

36. CADARNHAU COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion eithriedig cyfarfod y Pwyllgor Penodi ar 18 Ebrill 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

37. Y BROSES BENODI - CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL CYMUNEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 16:24

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MERCHER, 22 IONAWR 2020, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | N Clarke | T Giffard | JPD Blundell |
| RL Penhale-Thomas | PJ White | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

2. Y BROSES BENODI: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

Gofynnodd y Prif Weithredwr am gymeradwyaeth ar gyfer proses recriwtio swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gan fod deiliad presennol y swydd wedi rhoi rhybudd ymddiswyddo.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol eu bod wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan asiantaethau recriwtio sy'n arbenigo mewn recriwtio uwch reolwyr a rolau gweithredol awdurdodau lleol i gefnogi'r Cyngor gyda'r penodiad. Mae Solace in Business am ymgymryd â'r gwaith, mae ganddynt brofiad addas o recriwtio uwch reolwyr a rolau gweithredol awdurdodau lleol i gefnogi'r Cyngor gyda'r penodiad.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ar y broses ddethol sydd i ddilyn, sef y bydd ceisiadau'n cael eu hanfon i Solace in Business er mwyn iddynt asesu a gwerthuso ymgeiswyr yn erbyn y cymwyseddau a bennwyd ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor hwn drwy gydol y broses. Amlinellodd yr amserlen ar gyfer camau'r broses ddethol, ynghyd â disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer y rôl. Ar ôl y dyddiad cau, byddai'r Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gynnull i dderbyn adborth gan yr arbenigwr recriwtio ac i gytuno ar restr hir o ymgeiswyr i barhau i'r ganolfan asesu. Dywedodd y bydd y ganolfan asesu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dethol a bydd aseswyr yn cynnal cyfweliadau rheolaethol / technegol, profion seicometrig, ac asesiadau rhyngweithiol i brofi cymwyseddau allweddol. Bydd y Pwyllgor Penodiadau yn cael adborth ar ôl y ganolfan asesu ac yn cytuno ar restr fer derfynol o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad gan y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad, gan ystyried canlyniad y ganolfan asesu a'r cyfweliad terfynol.

Trafododd y Pwyllgor yr angen am feincnod i asesu ymgeiswyr ac roedd o'r farn y dylid pennu hyn ar 50%.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor Penodiadau yn:

(i) Cymeradwyo'r disgrifiad swydd a'r fanyleb;
(ii) Cymeradwyo'r broses a amlinellir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad;
(iii) Ailymgynnull ar 11 Mawrth 2020 yn dilyn cyfarfod y Cyngor i bennu'r rhestr hir o ymgeiswyr i'w gwahodd i'r ganolfan asesu;
(iv) Dirprwyo'r penderfyniad o ba ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i gam olaf y broses ddethol, i'w cyfweld gan y Pwyllgor Penodiadau, i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ganolfan asesu;
(v) Aillymgynnull ar 25 Mawrth 2020 am 9.30am i dderbyn adborth gan y ganolfan asesu ac i gynnal cyfweliadau terfynol a gwneud penderfyniad penodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:24

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2020, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | N Clarke | T Giffard | JPD Blundell |
| RL Penhale-Thomas | T Thomas | PJ White | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Ian Vaughan | Cynllunio'r Gweithlu a Rheolwr Gweinyddol |

6. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

7. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitem canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

8. PENODI: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

This page is intentionally left blank